Rhif: **WG16073**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Rheoli Pysgodfeydd Cocos yng Nghymru - Adolygiad

Dyddiad cyhoeddi: **18 Gorffennaf 2012**
Ymatebion erbyn: **10 Hydref 2012**

## Trosolwg

Gweledigaeth Strategaeth Pysgodfeydd Cymru a gyhoeddwyd yn 2008 yw cefnogi datblygiad pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy er mwyn diogelu stociau pysgod a'r amgylchedd morol. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar 27 Mawrth 2012 ei fwriad i adolygu'r modd y caiff pysgodfeydd rhynglanwol eu rheoli yng Nghymru yn ystod haf 2012.

Mae pysgota am gocos yn rhan annatod o hanes a diwylliant arfordir Cymru. Mae pobl wedi bod yn casglu cocos i'w bwyta ers Oes Newydd y Cerrig. Mae diwydiant rhyngwladol a modern bellach wedi datblygu sydd ynghlwm â phrosesu a chyflenwi cocos i farchnadoedd yng Nghymru, Cyfandir Ewrop a gwledydd eraill. Mae cocos yn cynrycholi cyfran helaeth o weithgareddau nifer o weithwyr proffesiynol sydd ynghlwm â'r diwydiant pysgod cregyn, sy'n cynnwys casglu, prynu, prosesu, marchnata neu gyfuniad o'r rhain.

Derbynnir bod gan y cyhoedd hawl i bysgota am bysgod cregyn a physgod môr ar hyd y blaen traeth. Gall yr hawl hwn fod yn amodol ar reoliadau a hefyd gael ei gyfyngu gan y defnydd o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 lle y byddai Gorchymyn o blaid 'grantî' yn rhoi'r gallu i reoleiddio'r niferoedd sy'n gweithredu o fewn y bysgodfa drwy gynllun trwyddedu. Mae Gorchymyn o'r fath wedi bodoli yng Nghilfach Tywyn ers 1965 a hefyd yn Aber Dyfrdwy ers 2008 (yn y ddwy bysgodfa hyn Asiantaeth yr Amgylchedd yw grantî a rheolwr y pysgodfeydd cocos).

Nid yw pysgodfeydd cocos eraill yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio yn yr un modd er eu bod yn sylweddol mewn rhai blynyddol. Bernir bod llawer o oblygiadau negyddol ynghlwm â natur anwadal y pysgodfeydd hyn i gymunedau lleol a'r amgylchedd. Wrth edrych tua'r dyfodol, felly, mae'n hollbwysig sicrhau bod pysgodfeydd cocos Cymru yn cael eu rheoli mewn modd sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl mewn modd cynaliadwy. Golyga natur y diwydiant a lefel y cyswllt ag Awdurdodau Lleol y bydd angen i sawl diwydiant gydweithio yn y tymor hwy. Mae hyn yn bwysig iawn wrth ystyried yr effaith ar yr hyn y mae pobl yn ei fwyta, y gadwyn fwyd a chyflwyno rheoliadau ynghylch Hylendid Bwyd.

O'r herwydd, mae ymgynghoriad ffurfiol wedi'i lansio i geisio eich barn ynghylch y cynnig i gyflwyno cynllun rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cocos yng Nghymru. Rydym yn croesawu eich sylwadau ynghylch y cynnig er mwyn sicrhau bod pysgodfeydd cynaliadwy yn cael eu rheoli'n effeithiol er lles cenedlaethau'r dyfodol a'u bod yn bodloni anghenion cymunedau lleol.

## Sut i ymateb

Rydym yn croesawu unrhyw fath o ymateb ond rydym wedi cynnwys holiadur syml o fewn y ddogfen hon. Gallwch gwblhau'r holiadur hwn a'i ddychwelyd atom drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad postio a nodir isod.

Cofiwch gynnwys yn eich ymateb eich manylion cyswllt ynghyd â manylion unrhyw gorff yr ydych yn ei gynrychioli lle y bo'n briodol.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

© Hawlfraint y Goron 2012

## Manylion Cysylltu

Hoffem dderbyn ymatebion mewn negeseuon e-bost at:

SwanseaFisheryOffice@wales.gsi.gov.uk

Eto i gyd, mae croeso i chi anfon unrhyw sylwadau drwy'r post at:

Yr Uned Pysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Llys y Draig
Parc Busnes Penllergaer,
Penllergaer, Abertawe
SA4 9NX

## Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Crynodeb

Ceir pysgodfeydd cocos ar hyd arfordir Cymru ond mewn rhai mannau, morydau yn aml, gallant fod yn fawr iawn. Mae ardal rynglanwol Cymru yn cyfrif am 2% o arwynebedd y wlad.

Mae'r map yn Atodiad 4 (sy'n dwyn y teitl 'Parth Rhynglanwol Cymru - Ardaloedd o Ddiddordeb') yn dangos lleoliadau'r prif bysgodfeydd cocos yng Nghymru. Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â rheoli'r holl bysgodfeydd hyn ac eithrio Afon Dyfrdwy a Chilfach Tywyn, lle mae cynlluniau rheoli wedi'u sefydlu, ac a fydd yn parhau.

Mae'r pysgodfeydd hyn wedi cyfrannu at draddodiad a threftadaeth Cymru ers cenedlaethau ond yn yr oes sydd ohoni, mae eu pwysigrwydd economaidd hefyd wedi cynyddu ac maent bellach yn gwneud cyfraniad pwysig at ddiwydiant pysgota Cymru.

Heblaw am yr ystyriaethau hyn, mae'r ardaloedd lle ceir cocos yn aml wedi'u dynodi yn Safleoedd a Ddiogelir o ran eu gwerth cadwraeth a'u manteision amgylcheddol. Mae'n gwbl hanfodol sicrhau y caiff y gwerth hwn ei gynnal gan ei fod yn cyfrannu at elfennau eraill o economi Cymru, megis Twristiaeth, ac yn eu hategu.

Am y rhesymau hyn i gyd, mae'n hollbwysig sicrhau y caiff pysgodfeydd cocos yng Nghymru eu rheoli mewn modd sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl mewn ffordd gynaliadwy ond sydd hefyd yn lleihau'r anawsterau posibl i gymunedau ac amgylcheddau lleol.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gynllunio cynllun rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cocos Cymru ac rydym yn gofyn i chi gyfrannu at y broses honno drwy'r Ymgynghoriad hwn.

### Y sefyllfa bresennol

Yn hanesyddol, Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr fu'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd cocos yng Nghymru. Fodd bynnag, diddymwyd y Pwyllgorau ar 1 Ebrill 2010 a chafodd y rhan fwyaf o'r Is-ddeddfau, gan gynnwys y rheini a ddeddfwyd at ddibenion rheoli cocos, eu harbed ac maent bellach yn weithredol fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol.

Roedd y pwerau deddfu presennol a oedd yn sail i'r trefniadau yn gyfyngedig. Er enghraifft, ni allai Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr lunio cynllun caniatáu cyfyngedig, ac felly ni allent gyfyngu ar niferoedd y bobl sy'n gallu cymryd rhan yn y pysgodfeydd hyn. Yn lle hynny, rheoliadau o ran agor a chau'r bysgodfa oedd yr unig ddulliau oedd ar gael. Mae hyn yn dueddol o olygu bod nifer fawr o gasglwyr yn rhuthro i bysgota ar y diwrnod cyntaf a'r diwrnodau dilynol, nes eu bod wedi casglu'r cyfanswm a ganiateir.

Wrth geisio rheoli'r bysgodfa yn well, gall sefydliadau (fel arfer y rheini yn y sector cyhoeddus) geisio rheoli pysgodfeydd drwy Orchymyn Rheoleiddio a wnaed o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967. Mae dau o'r prif bysgodfeydd cocos yng Nghymru yn destun Gorchmynion Rheoleiddio ar hyn o bryd - sef

pysgodfeydd Cilfach Tafwys ac Aber Afon Dyfrdwy. Caiff y ddwy eu rheoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn y gorffennol, mae'r ddwy bysgodfa hyn wedi darparu stoc sefydlog o gocos - fodd bynnag, mae Cilfach Tywyn wedi dioddef yn sgil achosion o farwolaethau annodweddiadol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cael effaith fawr ar y bysgodfa. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw geisiadau gan gyrff cyhoeddus eraill i reoli unrhyw bysgodfa gocos arall yng Nghymru. Erys y pwerau i reoli gweddill y pysgodfeydd cocos gyda Llywodraeth Cymru.

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pwerau ychwanegol y gall Gweinidogion Cymru eu harfer i reoli pysgodfeydd. Mae hyn yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno cynlluniau caniatáu cyfyngedig at y dibenion hyn.

Ystyriaeth arall yw bod y stoc cocos, sy'n gysylltiedig â'r pysgodfeydd hynny nad ydynt yn destun Gorchymyn Rheoleiddio, yn dueddol o fod yn fwy cyfnewidiol. Er enghraifft, cynhyrchodd Pysgodfa Gocos y Tair Afon 8000 o dunelli yn 2005, ond dim byd yn 2011, yn sgil achos o farwolaethau annodweddiadol ymysg cocos. Roedd hyn yn golygu nad oedd digon o gocos ar gael i ystyried agor y bysgodfa i'w casglu y flwyddyn honno.

**Heriau o ran dulliau rheoli pysgodfeydd presennol**

Mae potsio yn peri pryder mawr, yn arbennig am nad yw bob amser yn bosibl plismona'n llawn yr ardaloedd rhynglanwol helaeth yng Nghymru, mewn modd diogel ac effeithiol. Er mwyn sicrhau bod y bysgodfa yn gwbl gynaliadwy, mae angen sicrhau bod niferoedd penodol o gocos yn cael eu gadael ar y gwelyau i fwydo'r boblogaeth adar a sicrhau y caiff y stoc ei hailgyflenwi. Mae risg y gallai hyn ddenu potswyr.

Mae'r pwerau i orfodi yn erbyn pysgodfa yn nwylo nifer o gyrff cyhoeddus gwahanol, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Er enghraifft, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Reoli Pysgodfeydd, ond mater i awdurdodau lleol a pherchenogion tir yw mynediad i'r bysgodfa. Fel cynghorydd cadwraeth natur statudol Llywodraeth Cymru, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn gyfrifol am reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, ac awdurdodau lleol hefyd sy'n gyfrifol am sbwriel a chyfleusterau cyhoeddus. Felly, mae'n rhaid i unrhyw ddull o reoli pysgodfeydd fod yn un cydgysylltiedig, amlasiantaeth.

Gall y niferoedd mawr o gasglwyr sy'n gweithio ar y gwelyau cocos, yn ogystal â gweithgareddau cysylltiedig megis gwersylla dros nos mewn ardaloedd cyhoeddus, darfu ar gymunedau sy'n byw ar hyd y gwelyau cocos hynny. Mae angen i unrhyw fesurau a gyflwynir at ddibenion rheoli pysgodfeydd ystyried y gymuned, y dylid ei chynnwys fel rhan annatod o'r broses gynllunio.

Nid ymddengys fod gan gyfran o'r casglwyr ddiddordeb hirdymor yng nghynaliadwyedd y bysgodfa. Mae angen i fesurau yn y dyfodol annog casglwyr i fod yn rhan o'r gwaith o sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa ar gyfer y dyfodol, ac ystyried y cymunedau yr effeithir arnynt gan y gweithgaredd casglu.

Ar hyn o bryd, mae'r gallu i olrhain pysgod cregyn, megis cocos, ar draws y gadwyn gyflenwi yn gyfyngedig. Mae'r pwerau cyfredol y gellir eu gorfodi yn erbyn cynhyrchwyr sy'n mynd â chocos o ardaloedd caeedig, naill ai o ganlyniad i reoli pysgodfeydd, neu at ddibenion iechyd y cyhoedd, yn annigonol. Mae angen i fesurau rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol ei gwneud yn anodd i gocos a gasglwyd yn ystod cyfnodau pan fo pysgodfeydd ar gau, neu mewn ardaloedd caeedig, fynd i mewn i'r gadwyn gyflenwi, a bydd angen i gynhyrchwyr chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni'r canlyniad hwn.

**Gwelliannau Angenrheidiol**

Rydym yn awyddus i gael eich barn ar y gwelliannau canlynol i geisio ateb yr heriau uchod:

**Dull gweithredu sydd wedi'i deilwra i amodau lleol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw pob pysgodfa gocos yr un fath, ac nad yw un dull gweithredu cyffredinol yn effeithiol nac yn cynnig gwerth da am arian.

**Dull Aml-Randdeiliad**

Er mwyn cydnabod y dull aml-randdeiliad, dylai pob corff a chymuned leol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cyfres o gynlluniau rheoli lleol ar gyfer y pysgodfeydd ar hyd arfordir Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn pennu dull o gydweithio a chytuno ymhlith yr asiantaethau perthnasol dan sylw. Bydd hyn yn cynnwys cynllun clir mewn perthynas â chyfrifoldebau pob asiantaeth, trefniadau cyfathrebu y cytunwyd arnynt, trefniadau mynediad, ystyriaethau amgylcheddol (a bydd hefyd yn ffurfio'r ddogfennaeth ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), ystyriaethau gorfodi yn ogystal ag ystyriaethau diwydiannol. Bydd y broses yn cynnwys arweinwyr penodedig y cytunwyd arnynt a manylion cyswllt ar gyfer pob asiantaeth, er mwyn sicrhau y gellir ymateb yn effeithiol i ymholiadau. Caiff y cynlluniau rheoli lleol hyn eu hadolygu bob blwyddyn. Mae rhagor o fanylion am Gynlluniau Rheoli Lleol i'w gweld yn **Atodiad 3.**

**Y Gallu i Olrhain**

Er mwyn cynorthwyo dulliau olrhain yn y Bysgodfa, bydd yn ofynnol i bob casglwr cocos sy'n dymuno casglu yng Nghymru gofrestru â Llywodraeth Cymru, a chael rhif casglwr unigryw, a bydd yn ofynnol iddo hefyd gyflwyno ffurflenni cyfredol yn nodi faint o gocos a gasglwyd. Codir ffi briodol am gofrestru. Rydym yn cynnig hefyd y dylid rhoi bagiau a thagiau i ddeiliaid trwydded a fydd yn cyfateb i gyfanswm y cocos y caniateir iddynt eu casglu bob blwyddyn. Rydym yn cynnig y dylai fod yn drosedd i gasglu cocos at ddibenion masnachol mewn unrhyw gynhwysydd arall. Rydym hefyd yn bwriadu cadw'r bysgodfa ar agor am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac annog cynhyrchwyr a chasglwyr i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y cocos a gesglir ganddynt yn cynnig y gwerth gorau posibl ac osgoi'r risg y bydd pobl yn rhuthro i bysgota. Rydym am gael eich barn ar y dulliau gweithredu hyn.

**Caniatáu cyfyngedig**

Bydd y pysgodfeydd mwy o faint yn destun prosesau caniatáu cyfyngedig, ac rydym yn bwriadu arfer pwerau i ddiddymu trwyddedau os profir bod troseddu wedi digwydd. Nodir y dull arfaethedig o ddyrannu trwyddedau mewn egwyddor yn **Atodiad 1** a byddem yn croesawu eich barn. Nodir yr egwyddorion a ddefnyddir i bennu faint a gaiff ei godi am drwydded yn **Atodiad 2**. Rydym am gael eich barn ar gynnig i neilltuo cyfran o'r rhain at ddefnydd cymunedau lleol drwy gynghorau cymuned. Rydym yn awyddus i ddatblygu cyswllt pwysig rhwng pysgodfeydd a'r cymunedau lleol er mwyn datblygu pysgodfa fwy cynaliadwy, ac rydym am gael eich barn ar p'un a fyddai'r dull hwn yn cyflawni'r dyhead hwnnw. Rydym hefyd yn awyddus i gael eich barn ar p'un a ddylid neilltuo cyfran o'r cyfle pysgota bob blwyddyn i bysgotwyr ifanc, ac rydym hefyd am gael eich barn ar sut y gellir cynnwys cynghorau cymuned yn y gwaith o ddyrannu trwyddedau i newydd-ddyfodiaid.

**Polisi dyrannu trwyddedau**

Er mwyn annog y rheini sy'n pysgota'r gwelyau i fod yn rhan o'r gwaith o sicrhau eu cynaliadwyedd, a manteisio i'r eithaf ar y cyswllt economaidd sy'n bodoli rhwng pysgodfeydd a chymunedau cyfagos. Credwn y byddai'n well dyrannu nifer lai o drwyddedau ar y sail y bydd unigolion yn gallu gwneud bywoliaeth o'r bysgodfa drwy'r flwyddyn. Y dewis amgen yw rhoi nifer fawr o drwyddedau ar gyfer casglu llai o gocos, sy'n debygol o olygu y bydd pobl yn rhuthro i bysgota. Rydym am gael eich barn ar y dull gweithredu hwn.

**Y dull o bennu pwy fydd yn cael trwydded**

Gan fod y cyflenwad o gocos mewn pysgodfeydd mwy o faint yn gallu bod yn gyfnewidiol, ein bwriad yw creu rhestr o unigolion a fydd yn ymwybodol o'u safle ar y rhestr. Pan gynhelir yr arolwg stoc blynyddol, caiff llinell ei thynnu ar y rhestr a bydd y rheini uwchlaw'r llinell yn gallu gwneud bywoliaeth o'r bysgodfa yn ystod y flwyddyn ganlynol, ac ni fydd y rheini sydd islaw'r llinell yn cael trwydded ar gyfer y flwyddyn honno. Mae **Atodiad 1** yn ymdrin ag egwyddorion y ffordd rydym yn cynnig y dylid penderfynu sut, ac i bwy, y caiff Trwyddedau eu rhoi. Y dewis amgen yw dyrannu nifer fawr o drwyddedau i alluogi unigolion i gymryd niferoedd llai ond rydym yn bryderus o hyd y bydd hyn hefyd yn golygu y bydd pobl yn rhuthro i bysgota. Rydym am gael eich barn ar y dull gweithredu hwn.

**Pwerau yn erbyn prosesu cocos a gasglwyd yn anghyfreithlon**

Rydym yn bwriadu ei gwneud yn drosedd i gynhyrchwyr yng Nghymru brynu, storio neu brosesu cocos:

- a gymerwyd o bysgodfa sydd ar gau;
- a gymerwyd gan gasglwyr nad ydynt wedi'u cofrestru neu nad oes ganddynt drwydded ddilys;
- a gymerwyd o bysgodfeydd mwy o faint mewn unrhyw beth heblaw'r bagiau a roddwyd; ac
- i beidio â dychwelyd y gwaith papur angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'u pwrcas.

Rydym am gael eich barn ar yr uchod.

**Defnydd personol**

Rydym yn bwriadu cyflwyno terfyn 5kg (pwysau byw) i bobl sy'n casglu cocos at ddefnydd personol, heb fod angen iddynt Gofrestru'n ffurfiol. O dan rai amgylchiadau, mae camddefnyddio'r system gasglu at ddefnydd personol yn peri anawsterau o ran rheoli trwyddedau, a lle y caiff cynlluniau Trwydded eu sefydlu, gall fod angen gwahardd casglu at ddefnydd personol. Rydym am gael eich barn.

# Atodiad 1 - Polisi dyrannu trwyddedau ar gyfer y pysgodfeydd mwyaf

Mae'n bwysig sicrhau bod y pysgodfeydd cocos yng Nghymru yn gweithredu mewn modd cynaliadwy, ac er mwyn gwneud hyn, bydd angen cyfyngu ar y niferoedd a fyddai'n dymuno pysgota. Nodir yr egwyddorion ar gyfer pennu'r rhestr o ymgeiswyr mewn trefn restrol isod, ac rydym yn croesawu eich barn ar y dull gweithredu hwn.

### Dulliau dyrannu

Rhoddir trwyddedau i gychwyn i'r rheini sy'n gallu dangos orau dystiolaeth flaenorol eu bod wedi cymryd rhan mewn modd gweithredol a pherthnasol yn y pysgodfeydd cocos mwyaf.

Caiff ymgeiswyr eu bandio, yn seiliedig ar ansawdd y dystiolaeth gymhwyso a gyflwynwyd, mewn perthynas â'r cyfnod cyfeirio o 2009 i 2011, gan gynnwys y flwyddyn honno. Unwaith y caiff nifer y trwyddedau sydd ar gael bob blwyddyn ei phennu (**gweler Atodiad 2**), cânt eu dyrannu i ymgeiswyr ar sail y meini prawf a nodir yn y bandiau canlynol.

### Cymhwysedd pysgotwr newydd

I bob pwrpas, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dyrannu tua 20% o'r cyfanswm y caniateir ei gasglu a bennwyd ar gyfer unrhyw un o'r pysgodfeydd mwyaf i bysgotwyr ifanc. Nodir y meini prawf ar gyfer y rheini a fyddai'n gymwys ym Mand A isod.

Diben y cymhwyster hwn yw cyflawni'r nod o annog cyfranogwyr ifanc i ddod i'r bysgodfa. Mae'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid yn y pysgodfeydd hyn wedi canolbwyntio ar y ffaith mai cyfran fach o gyfranogwyr ifanc sy'n gweithio yn y pysgodfeydd. Mae hyn yn amlwg hefyd wrth edrych ar y niferoedd sydd wedi cymryd rhan yn y bysgodfa yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai dyrannu tua 20% i bysgotwyr ifanc yn ceisio sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y bysgodfa.

Rydym yn croesawu eich barn ar y dull gweithredu hwn.

### Cynnwys y gymuned leol

Yn ogystal ag annog pysgotwyr ifanc i ddod i'r bysgodfa, byddem yn ceisio sicrhau bod y bysgodfa yn cynnig y manteision economaidd mwyaf posibl i'r gymuned leol. Un maes y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno ei ystyried yw cyfleoedd i gynnwys y cynghorau cymuned lleol.

Rydym yn croesawu eich barn ar y dull gweithredu hwn.

### Bandiau Cymhwyso

| | |
|---|---|
| **Band A** | Ymgeiswyr sy'n cyflwyno tystiolaeth gymhwyso i ddangos eu bod yn 21 oed neu'n iau (ar 31 Rhagfyr |

2012) ac sydd hefyd yn gallu dangos eu bod wedi cymryd rhan mewn modd perthnasol yn y bysgodfa berthnasol fel Pysgotwr Masnachol (h.y. un sydd wedi ennill cyfran sylweddol o'i incwm o bysgota) ers iddynt fod yn 16 oed.

**Band B** Yr ymgeiswyr hynny sy'n cyflwyno tystiolaeth gymhwyso i ddangos eu bod yn 22 oed neu'n hŷn, ac sydd hefyd yn gallu dangos eu bod wedi cymryd rhan mewn modd perthnasol yn y bysgodfa berthnasol fel Pysgotwr Masnachol (h.y. un sydd wedi ennill cyfran sylweddol o'i incwm o bysgota)

**Band C** Yr ymgeiswyr hynny sy'n cyflwyno tystiolaeth gymhwyso ac yn dangos eu bod wedi cymryd rhan mewn modd perthnasol yn y bysgodfa berthnasol, ond nad ydynt yn Bysgotwyr Masnachol. Pysgotwyr ifanc sy'n gymwys ar gyfer Band A, ond na chaiff trwyddedau eu dyrannu iddynt ar sail y rheol 20% mewn perthynas â'r cyfanswm y caniateir ei gasglu, fydd ar frig y band hwn.

O fewn pob un o'r Bandiau uchod, defnyddir system bwyso ar y dystiolaeth a gyflwynir i wahanu ceisiadau. Os na fydd yn bosibl gwahanu ymgeiswyr yn y ffordd hon yna cânt eu dewis ar hap er mwyn pennu eu trefn restrol. Bydd y broses o ddewis ymgeiswyr ar hap yn cynnwys dewis enwau o het yn gyhoeddus, wedi'i ddilysu gan archwilwyr annibynnol.

**Gwybodaeth Asesu**

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth y gellid eu hystyried

- Derbynebau gwerthiannau;
- Dogfennau cofrestru Awdurdod Lleol;
- Derbynebau gwesty lleol;
- Cofnodion prynu y gellir eu dilysu;
- Cyfeiriadau eraill at gymryd rhan, wedi'u hategu gan dystiolaeth arall;
- Ffurflenni yn nodi faint o gocos a gasglwyd;
- Ffotograffau;
- Toriadau o bapurau newydd;
- Trwyddedau Is-ddeddfwriaeth y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr;
- Siec gan brynwr lleol;
- Gohebiaeth â Phwyllgorau Pysgodfeydd Môr/Llywodraeth Cymru yn ynghylch y bysgodfa;
- Llyfrau cofnodi nifer y cocos a gasglwyd;
- Ffurflenni cychod;
- Dyddiaduron pysgota.

Byddai tystiolaeth o gymryd rhan fel pysgotwr masnachol hefyd yn cyfrif fel tystiolaeth o gymryd rhan a gallai gynnwys cyfuniad o unrhyw un o'r dystiolaeth isod:

- Pwysau'r dystiolaeth (e.e. trwyddedau i bysgota mewn ystod eang o bysgodfeydd cregyn, trwyddedau sy'n dangos am faint o amser y gellir pysgota mewn pysgodfeydd cregyn, nifer fawr o dderbyniadau o amrywiaeth o bysgodfeydd);
- Dyddiaduron/llyfrau cofnodi'r pysgotwr;
- Cyfriflenni ariannol/cyfrifon yn dangos gwariant sylweddol ar gyfarpar pysgota;
- Perchennog llong bysgota gofrestredig;
- Hysbysiad gan Gyllid y Wlad o asesiad yn nodi galwedigaeth yr unigolyn;
- Llythyr gan Gyllid y Wlad yn cadarnhau mai pysgotwr yw galwedigaeth yr unigolyn;
- Graddau'r dystiolaeth gan brynwyr;
- Lluniau yn dangos graddau'r gweithgarwch pysgota;
- Gohebiaeth â Phwyllgorau Pysgodfeydd Môr neu Lywodraeth Cymru yn dangos ymrwymiad i'r bysgodfa fasnachol;
- Cardiau busnes/papur pennawd;
- Aelodaeth o WSFA/NFFO;
- Llythyr gan gyfrifydd.

Wrth ystyried y wybodaeth a roddwyd fel rhan o'r broses hon, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y fath ymholiadau ac ymchwiliadau ag y gwêl yn briodol i gadarnhau gwirionedd y wybodaeth. Caiff unrhyw achos lle y gallai gwybodaeth fod wedi'i ffugio mewn modd twyllodrus ei gyfeirio at yr Heddlu.

**Apeliadau**

Bydd cyfle i Ymgeiswyr apelio yn erbyn y penderfyniad o ran y Band y cânt eu gosod ynddo at ddiben rhoi Trwydded. Caiff Panel annibynnol ei sefydlu i glywed apeliadau o'r fath a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar yr apêl, yn unol ag arfer gorau a dderbynnir ar hyn o bryd.

# Atodiad 2 - Amcangyfrif o gyfanswm nifer y cocos y caniateir eu casglu yn y bysgodfa, nifer amcangyfrifedig y deiliaid trwydded, a chost amcangyfrifedig trwydded ar gyfer y pysgodfeydd mwyaf

### Cyfanswm y Caniateir ei Gasglu

Pennir hyn bob blwyddyn yn dilyn asesiad stoc gan wyddonwyr Llywodraeth Cymru. Caiff swm ei eithrio i fodloni ystyriaethau amgylcheddol a gofynion o ran ailgyflenwi'r stoc yn y dyfodol.

### Nifer y trwyddedau

Cynigiwn y dylid cynnwys pob person sy'n gymwys i gael trwydded ar restr yn y drefn restrol a ddisgrifir yn **Atodiad 1.** Caiff trwyddedau eu rhoi ar y sail y bydd yr unigolyn yn gallu gwneud bywoliaeth o'r bysgodfa ac y bydd pob unigolion sy'n cael trwydded yn gallu cymryd tua 25 o dunelli. Caiff trwyddedau felly eu rhoi o'r rhestr a luniwyd, yn seiliedig ar 25 o dunelli fesul trwydded, hyd at lefel a bennwyd o ran y cyfanswm y caniateir ei gasglu yn y Bysgodfa honno ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae rhai enghreifftiau o'r cyfanswm hwn mewn pysgodfeydd cocos yng Nghymru yn ddiweddar yn rhoi syniad o'r trwyddedau y gellid eu rhoi o dan amgylchiadau tebyg:

Traeth Lafan – 1000 o dunelli = 40 o drwyddedau.

Y Tair Afon – 1600 o dunelli = 64 o drwyddedau.

Rydym yn croesawu eich barn ar y dull gweithredu uchod.

### Ffioedd Trwyddedau

Rhaid i ffioedd trwyddedau gyfateb i gost rheoli'r bysgodfa. Bydd hyn yn cynnwys yr holl gostau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys costau gorfodi a chostau gwyddonol. Amcangyfrifwn y bydd y gwaith o reoli un o brif bysgodfeydd cocos Cymru yn costio o leiaf £50,000 y flwyddyn yn nodweddiadol, ond mewn rhai achosion gall y ffigur hwn fod yn sylweddol uwch

Awgrymir y dylid codi ffi trwydded flynyddol o tua £750-1,500. Fodd bynnag, bydd angen pennu'r cyfryw gostau fesul achos a fesul pysgodfa, a gallant fod yn sylweddol uwch.

Gall cydnabod bod angen cymhwyso costau yn y ffordd hon arwain at godi rhai ffioedd anghymesur am yr hyn a allai, mewn rhai blynyddoedd, fod yn elw cymedrol os bydd y cyfanswm y caniateir ei gasglu yn isel. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch pa faterion y dylid eu hystyried wrth i Lywodraeth Cymru bennu ffi'r drwydded.

# Atodiad 3 - Cynlluniau Rheoli Lleol

Mae llwyddiant dulliau rheoli yn ei hanfod yn dibynnu ar gynllun rheoli lleol effeithiol sy'n nodi'n glir ac yn dryloyw rolau a chyfrifoldebau asiantaethau sydd â rôl statudol neu allweddol i'w chwarae o ran rheoli'r bysgodfa; materion rheoli lleol - gan gynnwys cydymffurfio â gofynion amgylcheddol; trefniadau gorfodi ar y cyd a chynlluniau cyfathrebu.

Rydym yn cynnig y dylai'r sefydliadau canlynol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu, cynnal a gweithredu'r cynlluniau rheoli lleol ac rydym yn croesawu eich barn ar y rhestr o sefydliadau ac unrhyw farn ar gynnwys cynllun o'r fath.

**Llywodraeth Cymru**

Yn gyfrifol am agor a chau pysgodfeydd a chymryd camau gorfodi yn erbyn gweithgarwch pysgota anghyfreithlon.

**Awdurdodau Lleol**

Yn gyfrifol am faterion yn ymwneud a sbwriel, cyfleusterau cyhoeddus, parcio a gwersylla. Yn gyfrifol ar y cyd â pherchenogion tir am faterion yn ymwneud â mynediad a chynnwys y gymuned. Yn gyfrifol ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd am faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

**Cynghorau Cymuned**

Yn cynrychioli barn y bobl lefel yr effeithir arnynt gan y bysgodfa a chynaliadwyedd y bysgodfa yn y dyfodol. Cyfrannu mewnbwn ar gysylltiadau economaidd er mwyn galluogi cymunedau i gael y gwerth gorau o bysgodfeydd.

**Yr Heddlu**

Yn gyfrifol am drefn gyhoeddus a throseddau traffig/rhwystrau/troseddau yn ymwneud â'r drefn gyhoeddus.

**Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau**

Yn gyfrifol am reoleiddio'r broses o drwyddedu llongau.

**Yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri**

Yn gyfrifol am sicrhau bod gangfeistri sy'n ymwneud â chasglu cocos yn cydymffurfio â'r cod ymarfer da.

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

Yn gyfrifol am faterion hylendid pysgod cregyn a materion yn ymwneud â'r gadwyn fwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol.

### Asiantaeth yr Amgylchedd

Yn gyfrifol am faterion rheoli llifogydd mewn amgylcheddau morydol a thipio anghyfreithlon.

### Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol yn ymwneud â SoDdGA a rhoi cyngor ar ffyrdd o leihau effaith y bysgodfa ar safleoedd Natura 2000.


### Perchenogion tir

Mae perchenogion tir, tua'r tir a rhynglanwol, yn rheoli mynediad cerbydau i ardaloedd pysgodfeydd. Efallai y bydd angen rhoi caniatâd i bobl bysgota mewn ardaloedd penodol.

### Y Diwydiant Pysgota a Phroseswyr

Mae cydweithrediad y diwydiant pysgota yn allweddol i lwyddiant y cynigion hyn. Bydd hyn yn galw am gynrychiolaeth o grwpiau o gasglwyr, prynwyr a phroseswyr i fynegi barn ar y cynlluniau rheoli. Bydd y gynrychiolaeth hon yn sicrhau y caiff amodau'r farchnad eu hadlewyrchu'n gywir ac yn gyfredol, a hynny mewn perthynas â'r bysgodfa gocos berthnasol a'r gweithgarwch tebygol a ragwelir yn y bysgodfa honno, gan ystyried amrywiadau blynyddol.

# Atodiad 4



The Welsh Intertidal Zone - Areas of Interest
Traeth Lafan
The Dee
Dyfi Estuary
Three Rivers
Burry Inlet
Approximate extent of intertidal zone - 43,000ha
0 10 20 Kilometers
Intertidal zones are constantly shifting and as such areas should be treated as approximate.
Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of HMSO.
© Crown copyright and database right 2011. All rights reserved.
Welsh Government. Licence number 100017916.
Cartography by SEED
SEED Ref: 12_959
Llywodraeth Cymru
Welsh Government